

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2023 Rhif 466 (Cy. 70)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DŴR, CYMRU

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli
Llygredd Amaethyddol) (Cymru)
(Diwygio) 2023**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021").

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2021 er mwyn newid y dyddiad gweithredu ar gyfer rheoliadau 4 ac 36 o Reoliadau 2021 o 30 Ebrill 2023 i 31 Hydref 2023 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn parth perygl nitradau ("PPN").

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2021 fel bod y terfyn uchaf o 170kg yr hectar o nitrogen mewn tail da byw yn gymwys i bob cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â 31 Hydref ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN.

Mae rheoliad 2(4)(a) yn diwygio'r diffiniad o "cyfnod o 12 mis blaenorol" yn rheoliad 36(6) o Reoliadau 2021 fel bod y cyfnod cadw cofnodion perthnasol yn adlewyrchu'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 31 Hydref o dan rheoliad 4 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir mai'r cyfnod cadw cofnodion perthnasol cyntaf ar gyfer meddianwyr daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN yw 31 Hydref 2023 i 30 Hydref 2024.

Mae rheoliad 2(4)(b) yn diwygio'r diffiniad o "dyddiad perthnasol" yn rheoliad 36(6) o Reoliadau 2021 fel bod rhaid i feddianwyr daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn PPN

gofnodi'r data perthnasol sy'n ofynnol o dan reoliad 36(1) cyn 28 Chwefror 2025 ac 28 Chwefror ar gyfer pob blwyddyn ddilynol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2023 Rhif 466 (Cy. 70)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DŴR, CYMRU

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli
Llygredd Amaethyddol) (Cymru)
(Diwygio) 2023**

Gwnaed 25 Ebrill 2023

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru* 26 Ebrill 2023

Yn dod i rym 29 Ebrill 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 92 a 219(2)(e) i (f) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(1).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2023.

(1) 1991 p. 57. Diwvgiwvd adran 92 gan adran 120 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25), a pharagraffau 128 a 144 o Atodlen 22 iddi, a chan O.S. 2010/675 ac O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae diwvgiadau i adran 219 nad vdynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 92 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran y rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ddalgylchoedd afon Dyfrdwy, afon Gwy ac afon Hafren. O ran y rhannau hynny o Gymru sydd o fewn y dalgylchoedd hynny, mae swyddogaethau o dan adran 92 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 92 a 219 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

Diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

2.—(1) Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(b) (mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau), yn lle “30 Ebrill 2023” rhodder “31 Hydref 2023”.

(3) Yn rheoliad 4(4)(b) (dodi tail da byw – y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad), yn lle “30 Ebrill” rhodder “31 Hydref”.

(4) Yn rheoliad 36(6) (cofnod o’r nitrogen a gynhyrchwyd gan anifeiliaid ar y daliad)—

- (a) yn y diffiniad o “cyfnod o 12 mis blaenorol”, ym mharagraff (b)—
 - (i) yn is-baragraff (i), yn lle “30 Ebrill 2023 i 29 Ebrill 2024” rhodder “31 Hydref 2023 i 30 Hydref 2024”, a
 - (ii) yn is-baragraff (ii), yn lle “30 Ebrill ac sy’n gorffen ar 29 Ebrill” rhodder “31 Hydref ac sy’n gorffen ar 30 Hydref”;
- (b) yn y diffiniad o “dyddiad perthnasol”, ym mharagraff (b), yn lle “31 Awst 2024 ac ar gyfer pob blwyddyn ddilynol 31 Awst” rhodder “28 Chwefror 2025 ac ar gyfer pob blwyddyn ddilynol 28 Chwefror”.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

25 Ebrill 2023

(1) O.S. 2021/77 (Cy. 20), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1305 (Cy. 262).